NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Nodi a rheoli hypercolesterolemia etifeddol

Tachwedd 2017

## Hypercolesterolemia etifeddol – y gofal y dylech ei ddisgwyl

Genir un o bob 500 o bobl â math o golesterol uchel sy'n rhedeg mewn teuluoedd, a elwir yn hypercolesterolemia etifeddol, neu FH. Heb driniaeth mae pobl â hypercolesterolemia etifeddol yn debygol iawn o ddatblygu clefyd y galon yn gynharach na'r rhan fwyaf o bobl. Mae dechrau ar y driniaeth gywir cyn gynted â phosibl yn bwysig, ond nid yw llawer o bobl yn gwybod bod ganddynt y cyflwr.

Rydym am sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i bobl â hypercolesterolemia etifeddol drwy sicrhau'r canlynol:

- bod meddygon yn defnyddio'r ffyrdd gorau o ddod o hyd i bobl y gallai fod ganddynt hypercolesterolemia etifeddol, er enghraifft drwy edrych ar gofnodion meddygol pawb
- y caiff aelodau teulu pobl sydd wedi cael diagnosis o hypercolesterolemia etifeddol eu holrhain ac y cynigir prawf genynnau iddynt i weld a allai fod ganddynt y cyflwr hefyd
- y cynigir triniaeth gydol oes â statinau i bobl â hypercolesterolemia etifeddol cyn gynted â phosibl.

## Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich gweithwyr iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Er mwyn eich helpu i wneud penderfyniadau, ystyriwch:

- Beth sy'n eich pryderu fwyaf – a oes agweddau ar y profion neu'r driniaeth sy'n peri pryder i chi?
- A fydd y driniaeth yn effeithio ar eich bywyd o ddydd i ddydd?
- Pa newidiadau i'ch ffordd o fyw y byddech yn eu gwneud er mwyn gostwng eich colesterol?

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dwedwch hynny wrth eich gweithiwr iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Mae gan NHS Choices ragor o wybodaeth am hypercolesterolemia etifeddol.



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- Sefydliad Prydeinig y Galon, 0300 330 3311
- CLIMB – Plant sy'n byw gydag Anhwylderau Metabolig Etifeddol, 0845 241 2173
- HEART UK – Yr Elusen Golesterol, 0345 450 5988

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

Lluniwyd y canllaw hwn gyda phobl y mae hypercolesterolemia etifeddol wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-1291-9



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.